

# Canfod Capiau Cwyr

## Pecyn Gweithgarwch i Arweinwyr Grwpiau

# Cyflwyniad

**Mae'r DU yn gartref i rai o laswelltiroedd capiau cwyr pwysicaf y byd. Fodd bynnag, mae llawer o rywogaethau'n prinhau ac yn dirywio. Mae Canfod Capiau Cwyr yn weithgaredd gwyddoniaeth y dinesydd sy'n helpu sefydliadau cadwraeth i ddod o hyd nid yn unig i rywogaethau prin, ond y cynefinoedd y gallent gael eu canfod yn tyfu ynddynt.**

**Eleni rydyn ni eisiau i fwy o bobl nag erioed gymryd rhan, ac fel arweinydd grŵp, fe allwch chi helpu. Os ydych chi'n arwain grwpiau cymunedol, timau gwirfoddol, neu sesiynau addysgol, mae'r pecyn yma'n darparu canllawiau, gweithgareddau ac adnoddau i'ch helpu chi i gefnogi eraill i gymryd rhan yn Canfod Capiau Cwyr.**

**Yn y pecyn yma fe welwch chi'r canlynol:**

1. Cynllun sesiwn enghreifftiol y gallwch chi ei addasu ar gyfer eich grŵp
2. Rhestr o offer
3. Cwestiynau cyffredin… a'u hatebion
4. Canllawiau iechyd a diogelwch
5. Adnoddau y gallwch chi eu hargraffu a'u rhannu, a fydd yn cefnogi eich sesiwn.

# Cynllun Sesiwn

Chi sy'n adnabod eich grŵp orau felly defnyddiwch y cynllun sesiwn yma fel man cychwyn a'i addasu i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r sesiwn wedi'i chynllunio i gael ei chyflwyno yn yr awyr agored, ond mae posib cyflwyno rhai elfennau dan do neu ar-lein.

## Amcan

Amcan y sesiwn yma yw ysbrydoli ac ennyn brwdfrydedd eich grŵp a rhoi'r hyder a'r sgiliau iddo gymryd rhan yn yr arolwg Canfod Capiau Cwyr.

## Erbyn diwedd y sesiwn bydd y cyfranogwyr yn gallu gwneud y canlynol:

- Deall pwrpas Canfod Capiau Cwyr a sut i gymryd rhan yn yr arolwg
- Gwybod am y mathau o lefydd lle gallent ddod o hyd i ffyngau glaswelltir
- Gallu adnabod rhai o ffurfiau twf ffyngau glaswelltir a'u nodweddion adnabod

## Amlinelliad o'r Sesiwn

| Pwnc | Gweithgaredd |
|---|---|
| Y cyfranogwyr yn cyrraedd | Casglu pobl oddi wrth ardaloedd gyda thraffig, croeso a chyflwyniadau. |
| Rhannu amcanion a strwythur y sesiwn | Egluro'r mathau o weithgareddau a fydd yn digwydd e.e. ymarferol, ymarfer sgiliau, gwaith unigol a gwaith grŵp bach. Rhannu'r wybodaeth ymarferol fel amseroedd gorffen ac egwyl. |
| Iechyd a diogelwch | - Tynnu sylw at beryglon amlwg ar y safle e.e. tir serth neu lithrig, nentydd, gwartheg, ffensys trydan, tyllau mewn ffyrdd ac ati.<br>- Enwi'r bobl sy'n rhoi cymorth cyntaf a lleoliad y cit cymorth cyntaf.<br>- Gwirio bod y cyfranogwyr wedi paratoi e.e. dillad ac esgidiau addas, yn cario bwyd, diod ac unrhyw feddyginiaeth sydd ei hangen.<br>- Gwneud y cyfranogwyr yn ymwybodol o gyfleusterau (neu ddiffyg cyfleusterau) ar gyfer toiledau a golchi dwylo.<br>- Risg trogod, rhoi trowsus yn eu sanau, llewys hir a gwirio am drogod gartref. Rhoi gwybod i feddyg teulu os ydych chi'n teimlo'n sâl ar ôl brathiad.<br>- Rhoi gwybod i arweinydd y grŵp os oes angen i chi adael yn gynnar am unrhyw reswm. |
| Paratoi ar gyfer ymweld â'r safle | Gwirio bod gan y cyfranogwyr yr ap Waxcap Watch ar eu ffonau (os nad oes, parwch bobl fel eu bod nhw'n gallu gweld yr ap). Dosbarthu adnoddau e.e. taflenni cofnodi. |

| Pwnc | Gweithgaredd |
|---|---|
| Cyflwyniad i'r safle | Os gallwch chi, rhowch drosolwg o'r safle, ei nodweddion a'i reolaeth. Nid yw'n hanfodol ond gall helpu gwirfoddolwyr i feddwl am fwy o safleoedd arolygu os ydyn nhw'n deall nodweddion glaswelltir sy'n dda ar gyfer capiau cwyr. Efallai y bydd rheolwr neu berchennog y safle yn gallu helpu gyda hyn. |
| Beth sy'n gwneud glaswelltiroedd yn dda i ffyngau (y safle yma a safleoedd eraill y bydd gwirfoddolwyr eisiau eu harolygu efallai) | Eglurwch nodweddion glaswelltiroedd yn gyffredinol, a'r safle yma, sy'n ei wneud yn dda ar gyfer ffyngau glaswelltir h.y. glaswellt byr mwsoglyd sydd wedi bod yn laswelltog ers blynyddoedd lawer.<br>Crybwyll llefydd eraill sy'n dda ar gyfer ffyngau glaswelltir e.e. gerddi, caeau chwarae, mynwentydd, ymylon ffyrdd, caeau sy'n cael eu pori gan ddefaid.<br>Ceisiwch ddefnyddio enghreifftiau y gall cyfranogwyr eu gweld ar y safle i esbonio e.e. anifeiliaid sy'n pori, newidiadau mewn llystyfiant.<br>Gofynnwch fedr y cyfranogwyr feddwl am lefydd eraill y gallent fynd iddynt i chwilio am gapiau cwyr? |
| Adnabod ffyngau | Neilltuwch ardal fechan o'r safle i'r cyfranogwyr gerdded o gwmpas lle gall pawb weld ei gilydd.<br>Rhowch faneri neu farciau eraill i gyfranogwyr a gofyn iddyn nhw ledaenu fel grŵp a gosodwch faneri lle bynnag maen nhw'n gweld ffyngau.<br><br>**Adnoddau** – Baneri neu farciau eraill sy'n weladwy o bell |
| Nodweddion ffyngau | Edrychwch ar y ffyngau y mae pobl wedi'u canfod a dewiswch un neu ddwy enghraifft o gyrff ffrwytho ('madarch') a defnyddiwch y rhain i ddangos nodweddion allweddol ffyngau tagellog e.e. tagellau, bylchau rhwng y tagellau, sut mae'r tagellau'n glynu, lliw y cap, gwead y cap, y coesyn ac ati.<br><br>**Adnoddau (dewisol)** – Taflenni cofnodi sydd â darluniau o'r nodweddion ar y cefn. Mae'r darluniau yma'n ddefnyddiol ar gyfer dangos amrywiaeth y nodweddion, a gobeithio bydd gwirfoddolwyr sy'n awyddus i adnabod hyd at lefel rhywogaeth yn teimlo eu bod yn arbennig o ddefnyddiol.<br><br>Lensys llaw / chwyddwydrau i arsylwi'r nodweddion yn fanylach. |

Nodweddion capiau cwyr a ffyngau heb fod yn gapiau cwyr

Gyda'r rhywogaethau rydych chi wedi'u darganfod ar eich gwefan, dewiswch rywogaeth cap cwyr ac o leiaf un rhywogaeth arall heb fod yn gap cwyr i gymharu. Os yw'n bosibl, dewiswch o leiaf un rhywogaeth heb fod yn gap cwyr sydd â thagellau, i gymharu nodweddion mwy cynnil. Edrychwch ar y canllawiau lluniau capiau cwyr a ffyngau glaswelltir heb fod yn gapiau cwyr yn y pecyn yma am enghreifftiau o wahanol fathau o ffyngau glaswelltir y gallech chi ddod ar eu traws.
Gallai nodweddion yr enghreifftiau gynnwys y canlynol:

| Cap cwyr | Ffwng arall |
|---|---|
| Siâp "Caws Llyffant", gyda choesyn, cap, a thagellau | Ffyngau gyda siapiau eraill e.e. codennau mwg crwn siâp pêl, pastynau a chwrelau yn tyfu'n uniongyrchol o'r pridd |
| Tagellau gyda bwlch llydan rhyngddyn nhw | Tagellau sy'n agos iawn at ei gilydd |
| Coesyn (coesig) cymharol drwchus, bras | Coesynnau tenau iawn, tal |
| Cap a choesyn cwyraidd a chymharol lyfn | Capiau gyda llawer o wead e.e. capiau gyda gweadau blewog, "darnau" wedi glynu wrthynt, neu ymylon tonnog iawn |
| | Feliau neu strwythurau tebyg i we o dan y cap. Gall y rhain edrych fel "sgertiau" neu weddillion les / gwe pry cop o amgylch coesyn y ffwng neu o dan y cap |

**Adnoddau (dewisol)** – Efallai y byddai'n ddefnyddiol rhannu lluniau enghreifftiol o ffyngau gyda'r cyfranogwyr (fel y rhai yn y pecyn gweithgarwch yma), i ddangos yr amrywiaeth o wahanol rywogaethau o ffyngau y gallent ddod o hyd iddyn nhw. Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol os na fyddwch chi'n dod o hyd i lawer o wahanol rywogaethau o gapiau cwyr / ffyngau heb fod yn gapiau cwyr ar eich safle.

Yr arolwg Canfod Capiau Cwyr

Dewiswch ardal o'r safle lle gall cyfranogwyr ymarfer eu harolwg Canfod Capiau Cwyr eu hunain.
Dangoswch i'r grŵp sut i gynnal yr arolwg ar eich ffôn clyfar / tabled eich hun, gan drafod y gwahanol gwestiynau a sut i'w llenwi.
Gofynnwch i bobl eich dilyn chi ar yr ap os gallant.
Gofynnwch i barau neu grwpiau bach lenwi'r arolwg ar gyfer yr ardal. Holwch y cyfranogwyr sut mae pethau'n mynd.

| | |
|---|---|
| Dadfriffio ar ôl yr arolwg | Holwch y cyfranogwyr am sut brofiad oedd yr arolwg a nodi unrhyw feysydd greodd anhawster. Defnyddiwch y wybodaeth yn y grŵp i ateb cwestiynau a datrys problemau. |
| Y camau nesaf | Trafodwch y camau nesaf gyda'r grŵp. Ydi'r cyfranogwyr yn nodi llefydd i'w harolygu neu oes gennych chi safleoedd mewn golwg? Oes angen unrhyw gefnogaeth ychwanegol ar bobl?<br>Cyfeiriwch nhw at dudalen we Canfod Capiau Cwyr sydd â llawer o adnoddau ychwanegol ar gael. |

## Rhestr o offer ar gyfer Arweinwyr Grwpiau

Mae'r rhestr yma'n cynnwys y pethau sylfaenol i gynnal y cwrs ond dylid ei haddasu i gyd-fynd ag
anghenion eich grŵp a'ch safle.

Hanfodol

- Cynllun sesiwn wedi'i argraffu
- Ffôn clyfar / tabled gyda Survey123 a'r arolwg Canfod Capiau Cwyr wedi'i lawrlwytho
- Baneri / marcwyr eraill
- Offer Iechyd a Diogelwch – Cofrestr grŵp a rhestrau cysylltiadau brys, cit Cymorth Cyntaf, ffôn symudol wedi'i wefru, map o'r safle

Dewisol

- Taflenni cofnodi rhywogaethau wedi'u hargraffu
- Lensys llaw
- Adnoddau adnabod ffyngau glaswelltir ychwanegol e.e. llyfrau adnabod

## Cwestiynau Cyffredin gan Gyfranogwyr

"Doeddwn i ddim yn gallu lawrlwytho'r arolwg" / "Fedra i ddim dod o hyd i'r arolwg Canfod Capiau Cwyr" / "Dydi'r ap Waxcap Watch ddim yn gweithio i mi"

Mae gan y dudalen Canfod Capiau Cwyr ar wefan Plantlife ddolenni at y canlynol:

- Cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer sut i lawrlwytho'r arolwg
- Fideo YouTube byr gyda chanllaw cam wrth gam ar gyfer lawrlwytho'r arolwg
- Canllaw datrys problemau Survey123 ar ffurf pdf gyda phroblemau cyffredin, a sut i'w datrys

Os nad yw'r adnoddau ar-lein hyn yn datrys y broblem i'r cyfranogwyr, gallant e-bostio mewnflwch Canfod Capiau Cwyr (waxcapwatch@plantlife.org.uk) a byddwn yn ceisio datrys eu problem.

"Fe es i i wneud arolwg, ond 'wnes i ddim dod o hyd i unrhyw gapiau cwyr"

Weithiau ni fydd glaswelltir yn gartref i unrhyw gapiau cwyr, neu mae'r tywydd yn golygu nad oedd unrhyw gapiau cwyr yn ffrwytho ar y diwrnod y gwnaeth y cyfranogwr ymweld. Cofiwch annog y cyfranogwyr i gwblhau arolwg "dim canlyniadau", gan fod cael data am ble does dim capiau cwyr yn ffrwytho yr un mor bwysig â gwybod ble maen nhw.

"Dydw i ddim yn gwybod am unrhyw le yn fy ardal i fyddai'n gynefin da i gapiau cwyr"

Ar ddechrau'r sesiwn hyfforddi yma mae amser i drafod nodweddion glaswelltiroedd, a'r gwahanol fathau o lefydd lle gallai capiau cwyr dyfu. Cofiwch annog y cyfranogwyr i feddwl am lefydd yn eu hardal hwy yn ystod y cwrs, gan fod hyn yn helpu pobl i fynd allan i gynnal arolwg. Efallai y gallent drefnu i gyfarfod â gwirfoddolwyr eraill ar y cwrs i gynnal rhai arolygon gyda'i gilydd, i roi mwy o hyder i'w gilydd?

"Does dim signal ffôn lle rydw i eisiau cynnal fy arolwg"

Unwaith bydd y gwirfoddolwyr wedi lawrlwytho ap Survey123 a'r arolwg Canfod Capiau Cwyr ar eu dyfais, byddant yn gallu cwblhau arolygon heb signal ffôn. Mewn ardaloedd heb signal / signal gwael, bydd yr ap yn annog y gwirfoddolwyr i "Save to Outbox", sy'n cadw'r wybodaeth yn lleol ar eu dyfais.

Pan fydd y gwirfoddolwyr yn gallu ailgysylltu â Wi-Fi neu ddata symudol, bydd angen iddynt gyflwyno'r arolygon sydd yn eu Outbox. I wneud hyn, ewch i dudalen crynodeb yr arolwg lle byddwch yn gweld ffolder 'Outbox'. Bydd yr arolygon sydd wedi'u cwblhau i'w gweld a bydd posib eu cyflwyno drwy glicio ar "Send" yng nghornel dde isaf y sgrin.

"Ai cap cwyr ydi'r ffwng yma?" / "Pa rywogaeth ydi'r cap cwyr yma?"

Cynigiwch lawer o gyfleoedd i gyfranogwyr y cwrs ymarfer eu sgiliau adnabod, a chymharu capiau cwyr gyda rhywogaethau eraill rydych chi'n eu gweld. Dydi Canfod Capiau Cwyr ddim yn dweud ei bod yn ofynnol i wirfoddolwyr allu adnabod rhywogaethau o gapiau cwyr, ond fe welwch chi fod llawer o bobl yn dechrau sylwi ar nodweddion ffyngau ac yn naturiol chwilfrydig! Mae arsylwi nodweddion fel lliw, gwead, y bwlch rhwng y tagellau, sut mae'r tagellau'n glynu, a'r arogl i gyd yn sgiliau allweddol er mwyn adnabod rhywogaethau o gapiau cwyr. Mae gennym ni restr adnoddau isod ar gyfer cyfranogwyr y cwrs sydd â diddordeb mewn meithrin eu sgiliau ymhellach y tu hwnt i'r cwrs.

"Ydi capiau cwyr yn wenwynig?" / "A fydd cyffwrdd â madarch / capiau cwyr yn fy mrifo i?"

Does dim rhywogaethau o ffyngau yn y DU sy'n niweidiol i'w cyffwrdd. Mae'n ddiogel trin ffyngau i'w hadnabod. Ar ôl cyffwrdd â ffyngau / y pridd, rydyn ni'n argymell eich bod yn golchi eich dwylo cyn bwyta er mwyn sicrhau hylendid da.

"Ydi capiau cwyr yn fwytadwy?" / "Ydw i'n gallu eu bwyta?"

Dydi'r rhan fwyaf o gapiau cwyr ddim yn niweidiol i'w bwyta, ond ni fyddem yn argymell eu bwyta. Mae llawer o rywogaethau o gapiau cwyr yn y DU yn wynebu bygythiad rhyngwladol o ddifodiant, ac felly rydyn ni eisiau gwarchod eu poblogaethau. Ar gyfer unrhyw rywogaeth ffyngaidd, ni fyddem byth yn argymell bod dechreuwyr yn chwilota am fwyd heb gymorth arbenigol. Nid yw llawer o apiau a chanllawiau AI sydd ar gael ar-lein yn adnabod rhywogaethau'n gywir a gallant gynnig gwybodaeth beryglus.

“Rydw i eisiau dysgu sut i adnabod pa rywogaethau yw'r capiau cwyr yma” / “Ble allaf ddal ati i ddysgu?”

Mae gan Plantlife lawer o adnoddau ar gyfer gwirfoddolwyr sydd eisiau meithrin eu sgiliau ymhellach:

**Cyrsiau Hyfforddi Ar-lein Am Ddim**:

- Cwrs byr Canfod Capiau Cwyr. Mae'r cwrs yma ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r arolwg Canfod Capiau Cwyr a bydd yn ailadrodd y rhan fwyaf o'r cynnwys gafodd sylw yn eich cwrs, ond gallai fod yn dda i'r rhai sydd eisiau cwrs atgoffa i roi hwb i'w hyder.
- Adnabod a Rheoli Ffyngau Glaswelltir (4 uned). Mae hwn ar lefel uwch, ac yn adeiladu ar sgiliau a ddechreuwyd yn y cwrs dechreuwyr.

**Rhestr Chwarae YouTube Canfod Capiau Cwyr** (yn cynnwys fideos byr ar adnabod rhywogaethau, recordiadau o weminarau a mwy)

**Grŵp Facebook Canfod Capiau Cwyr** (Dan arweiniad y gymuned, ar gyfer cyngor ar adnabod ffyngau glaswelltir a'u rheoli)

**Archwilio set ddata 2020-2024 Canfod Capiau Cwyr**

Ar gyfer llyfrau / canllawiau maes sy'n ymwneud yn benodol â ffyngau glaswelltir, rydyn ni'n argymell *Grassland Fungi: A Field Guide 3ydd argraffiad (Wood a Dunkelman)*

“Fe gafodd fy safle i sgôr uchel iawn, sut gallaf i fod yn siŵr y bydd yn cael ei ddiogelu?”

Drwy gyflwyno eich arolwg safle i Canfod Capiau Cwyr, mae eich data'n cyrraedd ein system ni yn Plantlife. Rydyn ni'n dadansoddi ac yn sicrhau bod y data yma ar gael i'r cyhoedd, ac rydyn ni'n cydweithio â sefydliadau cadwraeth eraill i ddefnyddio data Canfod Capiau Cwyr i ddiogelu ffyngau ar y tir. Drwy gyfrannu at yr arolwg Canfod Capiau Cwyr, rydych chi nid yn unig yn helpu i ddiogelu eich safleoedd lleol, ond hefyd ffyngau glaswelltir ledled y DU.

# Iechyd a Diogelwch

## Asesiad Risg

**Wrth arwain unrhyw grŵp, dylech asesu'r peryglon posibl a'r risgiau sy'n gysylltiedig. Dylech gymryd camau i leihau'r tebygolrwydd o unrhyw ddigwyddiad anffodus, neu ddifrifoldeb y digwyddiad os bydd yn digwydd.**

**Yn ogystal â'r peryglon disgwyliedig wrth weithio gyda grwpiau neu fod yn yr awyr agored, fel y tywydd, cerdded ar dir anwastad, neu salwch, dyma rai y dylech chi eu hystyried yn arbennig wrth arwain y sesiwn yma:**

| Perygl | Risg | Mesurau rheoli |
|---|---|---|
| Da byw | Sathru, ofn, clefyd heintus | Dim ond mewn ardaloedd cyhoeddus ddylech chi arolygu neu sicrhau caniatâd perchennog y tir. Gwiriwch yr ardal ymlaen llaw i weld a oes da byw yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | bresennol. Dylech fod â chynllun wrth gefn os oes da byw annisgwyl yn ardal yr arolwg. Mae rhai grwpiau o bobl (e.e. pobl sydd â systemau imiwnedd gwael a phobl feichiog) mewn mwy o berygl o salwch wrth ddod i gysylltiad â da byw. |
| Brathiadau trogod | Clefyd cysylltiedig â throgod i.e. clefyd Lyme, enceffalitis sy'n cael ei gario gan drogod | Mae trogod yn ffynnu mewn ardaloedd glaswelltog. Gofynnwch i bobl orchuddio eu breichiau a'u coesau gyda llewys hir a throwsus, a rhoi eu trowsus yn eu sanau hefyd. Cofiwch eu hannog i wirio am drogod ar ôl y sesiwn a rhannu cyngor y GIG ar gyfer rheoli brathiadau trogod a symptomau clefydau cysylltiedig. |
| Baneri neu farcwyr eraill | Anafiadau i'r llygaid, yr wyneb neu ran arall o'r corff | Rhybuddiwch y cyfranogwyr i fod yn ofalus wrth edrych ar y ddaear o amgylch baner neu farciwr, rhag cael anaf i'r llygad neu'r wyneb. Anogwch symud yn ofalus o amgylch y safle rhag iddynt faglu ar faner. |
| Traffig | Anaf difrifol o gael eich taro gan gar | Peidiwch â chynnal arolygon mewn ardaloedd risg uchel e.e. ymylon ffyrdd cul. Gwnewch yn siŵr bod gofod / rhwystr rhwng pobl a thraffig. Dylech gynnal y briff grŵp cychwynnol yn rhywle heb fod yn ardal barcio. |
| Trin a bwyta ffyngau | Gwenwyn | Dywedwch wrth y cyfranogwyr i beidio â bwyta unrhyw ffyngau maen nhw'n dod o hyd iddyn nhw. Cofiwch annog pawb i olchi eu dwylo cyn bwyta i arfer hylendid da. Does dim risg o wenwyn o ddim ond cyffwrdd â ffyngau. |

# Llyfrgell Lluniau Ffyngau Heb Fod yn Gapiau Cwyr

Enghreifftiau o wahanol rywogaethau a theuluoedd o ffyngau y gallech ddod o hyd iddyn nhw mewn cynefinoedd glaswelltir sydd ddim yn gapiau cwyr. Mae’r grwpiau cyffredin o ffyngau eraill y gallech chi ddod o hyd iddyn nhw yn cynnwys: Tagellau Pinc, Pastynau, Cwrelau a Gwerthydau, Parasolau, Bonedau, Capiau Maes, Capiau Inc a Chodennau Mwg. Lluniau diolch i: Sarah Shuttleworth ac Aileen Baird.



# Llyfrgell Lluniau Capiau Cwyr

Lluniau enghreifftiol o wahanol rywogaethau o gapiau cwyr y gallech ddod o hyd iddyn nhw ar eich safle, wedi'u grwpio i'r 8 categori lliw yn yr arolwg Canfod Capiau Cwyr. Cofiwch nad yw Canfod Capiau Cwyr yn gofyn i chi adnabod rhywogaethau. Bydd ymarfer arsylwi nodweddion bach ffyngau yn helpu cyfranogwyr i ddweud y gwahaniaeth rhwng capiau cwyr a ffyngau heb fod yn gapiau cwyr, a dyma'r cam cyntaf wrth ddysgu adnabod ffyngau i lefel rhywogaeth. Lluniau diolch i: Sarah Shuttleworth, Steve Hindle, Lukas Large, Rich Wright, ac Aileen Baird.



